**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/02642/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

23 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ar 9 Hydref 2020 sy'n cynnwys gwybodaeth bellach i ategu Deiseb P-05-1040: 'Cyflwyno moratoriwm ar gymeradwyo unrhyw losgyddion gwastraff newydd ar raddfa fawr yng Nghymru'.

Pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer dull rhagofalus tuag at gategori penodol o ddatblygiad, rhoddir cyfarwyddiadau hysbysu fel rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol atgyfeirio ceisiadau cynllunio o'r fath atynt i'w penderfynu lle mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn bwriadu peidio â'u gwrthod. Yn aml mae gan losgyddion gwastraff i ynni allu cynhyrchu uwch na 10MW. O ganlyniad, mae ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DAC") ac fe'u gwneir yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, heb angen eu hatgyfeirio.

Arolygydd Cynllunio sy'n archwilio ceisiadau DAC ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gweithredu i sicrhau proses deg i bawb. Gwneir penderfyniadau ar geisiadau o'r fath gan Weinidogion Cymru ac mae'n ofynnol yn statudol ystyried y cynllun datblygu, yn ogystal ag ystyriaethau eraill sy'n berthnasol i'r cais. Mae hyn yn cynnwys polisi cyfredol a phresennol, megis Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) sy'n nodi'r polisi gwastraff ac yn cefnogi'r llwybr datgarboneiddio a sefydlwyd yn Neddf yr Amgylchedd 2016.

Mae'n hanfodol ein bod yn cymryd cyfrifoldeb am waredu'r gwastraff rydyn ni'n ei gynhyrchu na ellir ei ailgylchu. Am y rheswm hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn yr isadeiledd i dynnu trydan a gwres o'r deunydd hwn a'i waredu'n ddiogel i'r safonau amgylcheddol uchaf ac yn unol â'r hierarchaeth wastraff. Mae hyn nid yn unig yn sicrhau y gellir tynnu'r budd mwyaf o'r gwastraff hwn, ond hefyd yn ei atal rhag dod yn broblem mewn man arall.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae llosgi gwastraff ar gyfer gwres a phŵer, fodd bynnag, yn gam trosiannol. Roedd yr ymgynghoriad Mwy nag Ailgylchu ar strategaeth economi gylchol newydd yn amlwg mai'r ateb tymor hir yw cadw adnoddau'n mewn defnydd am gyfnod hirach a lleihau'r holl wastraff. Yn y cyfamser mae angen delio'n effeithiol â gwastraff na ellir ei ailgylchu mewn ffordd sy'n ei atal rhag naill ai llygru'r amgylchedd neu weld y broblem yn cael ei hallforio.

Mae'r llythyr yn cyfeirio'n benodol at grynodeb ymgynghoriad Mwy nag Ailgylchu. Mynychodd tua 1,000 o ddinasyddion a rhanddeiliaid ddigwyddiadau ledled y wlad a chyflwyno ymatebion. Mae Llywodraeth Cymru wedi clywed amrywiaeth o safbwyntiau ac mae'r crynodeb yn ceisio dal llawer o'r rhain. Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o ddatblygiad y ddogfen strategaeth derfynol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi strategaeth economi gylchol newydd erbyn diwedd y flwyddyn.

Yr eiddoch yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government